| Yr Adran Orthopteg |
|---|
| Gwisgo Sbectol |
| Gwybodaeth i gleifion |

**Atebion i rai cwestiynau cyffredin…**

**Sut bydda i'n gwybod os bydd angen sbectol ar fy mhlentyn?**
Defnyddir diferion i ymledu'r gannwyll sy'n caniatáu gweld cefn y llygad (retina) yn glir iawn. Drwy ddal y lensys a symud llinell o olau ar draws y retina, gall yr Optometrydd neu'r Offthalmolegydd fesur cryfder y sbectol sydd ei hangen.

**A fydd fy mhlentyn angen sbectol am byth?**
Bydd hyn yn dibynnu ar nerth y sbectol sydd ei hangen ac i weld a oes angen trin y llygad croes neu'r llygad diog.
Os bydd golwg eich plentyn yn gwella gyda'r sbectol, mae'n bosibl y bydd y golwg yn llai pan na fydd yn gwisgo'r sbectol.

Mae'n bosibl y bydd eich Orthoptydd neu'r Optometrydd yn gallu rhoi syniad i chi a fydd eich plentyn angen gwisgo sbectol am dymor hir.

**A ddylai fy mhlentyn wisgo sbectol drwy'r dydd?**
Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai. Bydd yr Orthoptydd neu'r Optometrydd yn dweud wrthych os na fydd angen y sbectol drwy'r amser. Er diogelwch, mae rhai ysgolion yn hoffi i'r plant dynnu'r sbectol ar gyfer chwaraeon ac amser egwyl. Pan fydd presgripsiwn y sbectol yn gryf, mae'n bosibl y bydd yn fwy diogel i'w gwisgo ar yr adegau hyn.

**Mae fy mhlentyn yn cwyno bod ei olwg/ golwg yn gymylog gyda sbectol ac yn dweud ei fod/ bod yn gweld yn well heb…**
Mae hon yn broblem gyffredin pan fydd y sbectol yn cael ei gwisgo am y tro cyntaf. Am beth amser, mae golwg eich plentyn wedi gostwng ac yn awr, mae'n rhaid i'r llygaid a'r ymennydd ddysgu cydweithio gyda help y sbectol. Mae'n hanfodol dyfalbarhau - gall sbectol fod yn gam pwysig iawn o'r driniaeth.

Ar y dechrau, mae'n bosibl y byddan nhw'n rhoi presgripsiwn gwannach i addasu i'r sbectol.

**Mae'r sbectol yn ymddangos yn gryf iawn…**
Bydd y sbectol y byddwn ni'n ei rhagnodi'n helpu eich plentyn i gael y golwg gorau posibl. Mae'n bosibl y bydd yn edrych yn rhyfedd i chi os na fyddwch chi'n gwisgo sbectol neu os bydd gennych sbectol ar gyfer cyflwr llygad gwahanol.

**Beth yw ystyr y presgripsiwn?**

**Golwg hir** - achosir hyn oherwydd bod y llygad ychydig yn llai na'r cyffredin. Nid yw'r pelydrau golau sy'n mynd i mewn i'r llygad yn ffocysu ar y retina. Mewn golwg hir, mae'n bosibl y bydd y golwg yn cael ei leihau ar gyfer gweld yn agos ac yn bell. Gall plant â golwg hir weithiau 'or ffocysu' i gyfaddawdu am eu presgripsiwn gan arwain at bennau tost a straen ar y llygaid os na fyddan nhw'n cael eu sbectol.

**Golwg byr** - achosir hyn achos bod y llygad yn fwy na'r cyffredin. Mae'r pelydrau golau sy'n mynd i mewn i'r llygad yn ffocysu o flaen y retina sy'n achosi golwg cymylog. Mae golwg pellter yn dueddol o gael ei affeithio'n fwy na golwg agos.

Gall pobl sydd â golwg hir neu olwg byr hefyd gael **astigmatedd**. Achosir hyn gan fod blaen y llygad ar ffurf pêl rygbi nid pêl droed. Mae'r golwg yn cael ei affeithio yn bell ac agos os bydd astigmatedd ar y llygad.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**